GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# ATAL A RHEOLI HEINTIAU

# Camau Allweddol Gaeaf 2025/2026

## Cynlluniau Strategol – Gwyliadwriaeth a Modelu Gweithredol

Mae cynllun strategol cyffredinol ar waith ar gyfer y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth sy'n ystyried data gwyliadwriaeth genedlaethol a'r data modelu gweithredol lleol. Nod y cynllun yw cefnogi asesiadau risg a gwneud penderfyniadau ar gyfer lleoli/llwybrau cleifion a defnydd cyffredinol masgiau wyneb ar gyfer staff, cleifion/ymwelwyr o fewn lleoliadau iechyd a gofal. Dylai hefyd gynnwys prosesau ar gyfer gostwng lefel y bygythiad.

## Brechu

Mae rhaglen frechu gadarn ar gyfer staff ar waith ac mae'n gweithio ar y cyd ag iechyd a diogelwch galwedigaethol. Mae'n cynnwys cynnal asesiad(au) risg ar gyfer staff iechyd a gofal a allai wynebu risg uwch o ddatblygu cymhlethdodau o ganlyniad i heintiau anadlol.

## Sgrinio a Brysbennu

Mae sgrinio, brysbennu a phrofi ar waith ar gyfer cleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty â symptomau clinigol haint anadlol acíwt yn unol â strategaethau profi cenedlaethol i lywio llwybrau clinigol a thriniaeth.

## Gofalu am gleifion a'u symud

Dylid symud o flaenoriaethu rheoli gwelyau i flaenoriaethu arferion atal a rheoli heintiau diogel, er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a lleihau trosglwyddiad nosocomiaidd. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Dylid symud cleifion cyn lleied â phosibl.
- Cynnal pellter corfforol lle mae cleifion yr amheuir bod haint anadlol arnynt, neu fod haint wedi'i gadarnhau, yn cael gofal neu eu rheoli, er enghraifft drwy ddefnyddio model gwely locer cadair yn yr ardaloedd clinigol
- Bod angen glanhau'r lleoliad a'r offer mewn ffordd ddiogel yn unol â'r canllawiau arferion gorau
- Bod angen gweithredu camau sy'n seiliedig ar risg ar gyfer ynysu/carfannau/brigiadau o achosion i sicrhau bod mesurau rheoli heintiau ar waith

## Monitro Ymarfer Atal a Rheoli Heintiau

Bod ymyriadau atal a rheoli heintiau ac iechyd a diogelwch galwedigaethol wedi'u hoptimeiddio, cyflawnir cynlluniau gweithredu cytunedig, a bod monitro ar waith (canllawiau NIPCM - Iechyd Cyhoeddus Cymru a Heintiau Anadlol Acíwt) sy'n cynnwys:

- Darparu hyfforddiant ynghylch mesurau atal a rheoli heintiau i'r holl staff
- Defnyddio cyfarpar diogelu personol yn y ffordd briodol, gan gynnwys prawf/gwirio ffitio ar yr wyneb os bydd unigolyn yn gwisgo anadlydd FFP3, a defnyddio'r dechneg gywir ar gyfer gwisgo a thynnu'r cyfarpar yn ddiogel.
- Darparu canllawiau clir i staff ynghylch peidio â mynd i'r gwaith os byddant yn sâl

## Lleoliadau anghlinigol

Rhaid i leoliadau iechyd a gofal roi rhagofalon anadlol ar waith mewn gweithleoedd anghlinigol cyn belled ag y bo'n ymarferol; bydd hyn yn golygu cynnal asesiadau risg lleol yn seiliedig ar y mesurau fel y'u blaenoriaethwyd yn hierarchaeth y rheolaethau ac yn cynnwys rhoi cyngor ar bresenoldeb staff pan fyddant yn dangos symptomau yng nghyd-destun rheoli cyfryngau heintus.